# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Chwefror 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 50(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinewfwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw, bellach, yn bwriadu cefnogi datblygu Cylchffordd Cymru, yn dilyn adroddiadau bod yr Heads of the Valleys Development Company wedi sicrhau'r cyllid preifat sydd ei angen ar gyfer ei adeiladu?

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau

(30 munud)

**NDM6222** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil yn ymwneud â sgiliau achub bywyd.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) creu hawl statudol i bobl gael addysg a hyfforddiant sgiliau achub bywyd sy'n briodol i'w hoedran ar amrywiol adegau yn eu bywydau

b) llunio cyfrifoldebau statudol i sicrhau:

i) bod hyfforddiant sgiliau achub bywyd yn cael ei ddarparu;

ii) bod diffibrilwyr yn cael eu darparu mewn lleoliadau priodol;

iii) bod unigolion sydd wedi cael hyfforddiant achub bywyd ar gael mewn swyddi allweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus (yn hytrach na pherson cymorth cyntaf penodedig); a

iv) bod deunyddiau cymorth cyntaf sylfaenol ar gael i'r cyhoedd mewn adeiladau cyhoeddus, ac nid ar gyfer y staff yn unig.

c) creu ffyrdd o wella a gorfodi o ran yr uchod.

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid

(60 munud)

**NDM6230** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 'Ba fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuenctid' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 2016.

**Dogfen ategol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6229** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae addysg bellach a sgiliau galwedigaethol yn eu gwneud i economi Cymru, yn arbennig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gylch cyllido tair blynedd i golegau addysg bellach ar lefel deg, er mwyn galluogi gwaith cynllunio mwy cynaliadwy a diogelu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud economïau lleol yn wydn.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi cyfran sylweddol o'r arian y mae'n disgwyl ei arbed, o ganlyniad i newidiadau i'r cymorth a roddir i fyfyrwyr addysg uwch, yn y sector addysg bellach, gan gynnwys buddsoddi cyfran yn y sgiliau lefel uwch a ddarperir mewn lleoliad addysg bellach a chyfran yn y ddarpariaeth Gymraeg.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ei wneud i gefnogi cyfleoedd economaidd ac yn nodi'r rôl arweiniol bwysig sydd ganddynt yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

2. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llwybrau addysg galwedigaethol ac academaidd yn cael parch cydradd.

3. Yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfleoedd llawn amser a rhan-amser o ansawdd uchel i addysg ôl-16 yn y ddwy iaith, sy'n gallu cefnogi dysgwyr o bob oed a gwasanaethu economi Cymru.

4. Yn croesawu'r £30m o gyllid ychwanegol a ddarperir ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

5. Yn nodi'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru drwy Adolygiad Diamond ac Adolygiad Hazelkorn i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer cyllido, rheoleiddio a llywodraethu addysg ôl-16 yng Nghymru.

6. Yn galw am ddiwedd i bolisi cyni niweidiol Llywodraeth y DU sydd wedi cael effaith negyddol ar yr holl wasanaethau cyhoeddus ar draws y DU, gan gynnwys addysg uwch ac addysg bellach.

Cyllideb Llywodraeth Cymru 2017-18
Adolygiad Diamond
Adolygiad Hazelkorn

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):
Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu y dylid sicrhau parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd, ac y dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at hyrwyddo cydraddoldeb rhyngddynt.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio o fewn ysbryd Hazelkorn er mwyn dileu llawer o'r gystadleuaeth ddiangen sydd wedi dod i'r amlwg mewn addysg ôl-16 yn ddiweddar, a datblygu llwybrau dysgu ôl-16 cliriach a mwy hyblyg.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6232** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU a'r effaith a gaiff ar Gymru.

2. Yn cydnabod y gwaith rhynglywodraethol i ddatblygu Bargen Dwf Gogledd Cymru.

3. Yn credu y gall dinas-ranbarthau chwarae rhan werthfawr o ran sicrhau gwelliannau economaidd i gymunedau ledled Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i lywio twf economaidd ym mhob rhan o Gymru.

'Building our Industrial Strategy - UK Government Green Paper January 2017' (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi'r angen i gryfhau perfformiad economi gogledd Cymru.

2. Yn cydnabod pa mor bwysig yw buddsoddi mewn seilwaith i hyrwyddo economi gogledd Cymru.

3. Yn credu bod angen i unrhyw Strategaeth Ddiwydiannol gan Lywodraeth y DU fynd i'r afael â diffyg buddsoddi digonol ers blynyddoedd yn seilwaith Cymru.

4. Yn galw am raglen gyson o welliannau i goridor yr A55, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi'r bwriad i drydaneiddio rheilffordd arfordir gogledd Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei Strategaeth Economaidd ar gyfer Cymru, a fydd yn nodi sut y gall gogledd Cymru ddatblygu'n bwerdy economaidd ei hun gan gydweithredu hefyd â phwerdy gogledd Lloegr i hyrwyddo gweithgarwch economaidd trawsffiniol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Papur Gwyrdd Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU wedi'i gyhoeddi.

2. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddatblygu polisi diwydiannol mwy gweithredol, ond yn gresynu at ei methiant i gefnogi'r diwydiant dur ar draws Cymru a'r DU dros y flwyddyn ddiwethaf.

3. Yn nodi cynllun Llywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth drawsbynciol ar gyfer cefnogi twf economaidd yn nes ymlaen yn y gwanwyn.

4. Yn cydnabod y gwaith rhwng llywodraethau sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch Bargen Ddinesig Caerdydd ac Abertawe a hefyd Bargen Dwf Gogledd Cymru.

5. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth y DU ynghylch pob maes sydd o ddiddordeb i Gymru a'r DU er lles busnesau ac economi pob rhan o Gymru.

6. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ymgysylltu'n briodol ac fel rhan o bartneriaeth gyfartal ynghylch materion diwydiannol trawsffiniol, gan barchu'n llwyr y setliad datganoli.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6231** Lynne Neagle (Torfaen):

Meithrin gwydnwch emosiynol yn ein plant a phobl ifanc.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Chwefror 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Chwefror 2017 i'w hateb ar 8 Chwefror 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**1.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r canllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i ysgolion ar sut i wella presenoldeb? OAQ(5)0088(EDU)

**2.** Jeremy Miles (Castell-nedd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau amgylchedd dysgu corfforol hygyrch a chynhwysol i blant ag awtistiaeth? OAQ(5)0089(EDU)

**3.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am raglen ysgolion yr 21ain ganrif yn Nwyrain Abertawe? OAQ(5)0081(EDU)

**4.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y defnydd mwyaf effeithiol o amser athrawon o ran cynllunio, paratoi ac asesu mewn ysgolion? OAQ(5)0092(EDU)

**5.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gael gwared ar y ffiniau rhwng addysg bellach ac addysg uwch? OAQ(5)0091(EDU)

**6.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Faint o blant pump oed sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymru ar hyn o bryd? OAQ(5)0080(EDU)

**7.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi disgyblion i astudio pynciau STEM mewn ysgolion? OAQ(5)0084(EDU)

**8.** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y bydd gwaith cydweithredol llwyddiannus a ddechreuwyd gan Her Ysgolion Cymru yn parhau? OAQ(5)0082(EDU)

**9.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg? OAQ(5)0083(EDU)**W**

**10.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynghylch hyrwyddo'r strategaeth Siarad â fi 2 mewn ysgolion? OAQ(5)0090(EDU)

**11.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi eu cynnal â phrifysgolion ynglŷn â chreu corff ymchwil ac arloesedd ar gyfer Cymru? OAQ(5)0086(EDU)**W**

**12.** David Rowlands (Dwyrain De Cymru): Pa fesurau sy'n cael eu cymryd i warchod athrawon rhag trais cynyddol gan ddisgyblion? OAQ(5)0085(EDU)

**13.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio technolegau digidol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru? OAQ(5)0087(EDU)

**14.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu addysg cyfrwng Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0079(EDU)